

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 9fed o Ebrill 2019.

1. **Preseanol:** Ffion Jones (Cadair) – Nantlle; Harry Wyn Owen, Sian Dafydd – Talysarn; Hefina MW Roberts, OP Huws, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Barry Bracegirdle, Nerys Williams, Erfyl Williams – Penygroes; Dafydd Thomas – Nebo. **Judith Humphreys – Cynhorydd Sir / Ymddiheuriadau:** Dylan Herbert, Justin Davies, Iona Wyn Jones – Penygroes; Nora Jones – Talysarn; Craig ab Iago – Cynhorydd Sir.
2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir:** Sian Dafydd yn datgan buddiant eitem rhif 9 Cynllunio, Tal y Maes Mawr. Gadawodd yr ystafell, a ni chymerodd ran yn y drafodaeth ar y cais cynllunio.
3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mawrth:** Cywirdeb eitem 9 – Partneriaeth – angen ychwanegu “os nad oedd syniadau am gynlluniau yn dod gan y 2 gorff arall”. Eitem 11 – ychwanegu “ac yn cytuno ein bod yn anhapus efo claddu gwastraff niwclear yng Nghymru”. Wedi i’r newidiadau yma gael eu gwneud, Hefina yn cynnig cywirdeb y cofnodion a Nerys yn eilio.
4. **Sedd wag Talysarn – cyfethol.** Y Cyngor yn rhydd i gyfethol – cynnigwyd enw Melanie Thomas, 6 Maes y Llenor, Talysarn yn aelod newydd i’r Cyngor – pawb yn cytuno.
5. **Cynghorwyr Sir – Adroddiadau:** Cafwyd adroddiad gan Judith, a darllenwyd ebost Craig.
6. **Materion yn codi o’r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Ymateb yn ol i’r ebost yn gwrthod rhoi railings wrth y Co-op newydd. Mae wir angen rhywbeth yno, cynnig unai railings ar yr ochr fewn, railings efo gapiau, neu folardiau. Angen rhywbeth ar yr ochr arall i’r lon hefyd. Cynnig gwahoddiad i Dylan Wyn Jones a’r Heddlu i gyfarfod Mehefin y Cyngor.
7. **Materion Pentrefi Penygroes** Golau lamp Stryd Fawr, Penygroes wedi disgyn – Justin wedi hysbysu Cyngor Gwynedd; Trefniadau toiled cyhoeddus – yn parhau yn Poveys – pryder gan rai nad yw’r arwyddion yn ddigon eglur; Pryder am y man ailgylchu ym Mhenygroes oherwydd y tipio anghyfreithlon sy’n digwydd yno. Gwydrau ar y llawr yn creu perygl i geir ac i bobl; Twll yn Bryn Llwyn – un yn fawr ac un arall yn dechrau; Twll anferth yn y gyffordd Ffordd LLwyndu – wrth rhif 28; Criw yn aflonyddu ar y Neuadd Goffa – cysylltwyd a’r Heddlu, ond erbyn iddyn nhw gyrraedd, roedd y criw wedi mynd. Pryder fod dim digon o bresenoldeb heddlu i gadw ymddygiad gwrthgymdeithasol ieuencid i ffwrdd. Trigolion mewn sefyllfa o fod ofn rhoi enwau i’r heddlu. Gofynwyd i’r Clerc ysgrifennu at yr Uwch Arolygydd i roi gwybod fod busnesau lleol yn cael eu amharu, ac i Arfon Jones Wrexham hefyd. Merched mewn ofn i gerdded adraf heibio’r criw yma. Cysylltu efo’r Youth Justice hefyd (Judith am yrru cyswllt ebost); Cwyn fod ieuencid yn ysmegu wrth ysgol Dyffryn Nantlle – Uwch dim rheoli yr Ysgol yn ymwybodol o’r broblem; Nerys wedi cysylltu efo’r Eglwys i gau drws y cwt; Parcio ar y llinellau melyn o flaen y Red Lion wedi gwaethygu; Llithren newdd wedi ei gosod yn Cwtin; Polyn wedi ei osod i atal cerbydau rhag mynd dros y bont gerdded dros y ffordd osgoi; Parcio yn broblem ar Stryd y Dwr – cerbydau yn cael eu gadael yno drwy’r dydd heb gymryd sylw o’r cyfyngiad amser; Arwydd ‘40mya a chamera’ yn y gilfan ar y ffordd i fewn i Penygroes o gyfeiriad Inigo Jones, ond ddim ar yr ochr arall i’r ffordd ar y ffordd allan o’r pentref. Gofyn i Gyngor Gwynedd pam dim ond un ffordd. Gofyn os oes posibil cael arwydd sy’n fflachio ar y lon yma hefyd. Talysarn Llythyr i’w arwyddo i’r Eglwys parthed symud y cofebion o Eglwys Talysarn – darllenwyd y cymalau, a cytunwyd i’r Clerc arwyddo. Mae’r ddwy gofeb fach yn cael eu symud i’r Ganolfan yn Talysarn, a’r un fawr i’r fynwent. Roedd y Cynghorwyr yn siomedig fod y llythyr yn uniaith Saesneg. Nebo Y Pwyllgor Ardal wedi bod yn trafod ysbwriel yn y pentref, ac am geisio gweithio i drio gwella’r broblem, drwy efallai gydweithio efo’r ysgol; Cwynion am fawr ci yn yr ysgol. Lluniau wedi eu derbyn.
8. **Taflen Ariannol a Chyllid a Chyfrifon y Cyngor 2018-19.** Derbyn y daenlen. Cymeradwywyd cyfrifon y Cyngor gan y Cynghorwyr. Y Clerc i drefnu iddynt gael eu archwilio gan yr Archwilydd Mewnol. Penderfynwyd y byddai Adran Archwilio Cyngor Gwynedd yn parhau gyda’r swyddogaeth yma.
9. **Cynllunio:** C19/0279/22/LL – 4 pabell safari, 1 adeilad sauna – Tal y Maes Mawr, Nebo – Sian Dafydd yn datgan diddordeb ac yn gadael yr ystafell. Ymateb Cyngor Cymuned Llanllyfni yw gwrthwynebu’r cais am y rhesymau canlynol: 1. Preifatrwydd trigolion cyfagos - Mae’r cynllun arfaethedig mewn lle agored, a bydd y datblygiad yn amharu ar breifatrwydd o leiaf 6 o dai. Mae yn rhy amlwg a gormesol mewn lle hollol agored. Byddai ymwelwyr yn gweld i mewn i dai trigolion. 2. Diogelwch y ffordd - Lonydd cul sydd yn mynd at y safle o Penchwarel i Pont Lloc. Mae gwrthwynebiad ar sail diogelwch

oherwydd y cynydd i drafnidiaeth ar hyd ffordd gul, a mynedfa anaddas at y safle. 3. Ar sail niwsans swm trafndiaeth, a swm ymwelwyr yn amharu ar drigolion. ; C19/0180/22/LL – Tai'r Eithin, Nebo – lolfha haul - caniatáu; C19/0268/22/LL – Ty Fry, 1 Tanrallt Terrace, Llanllyfni – estyniad deulawr cefn - caniatáu; C19/0280/22/LL – Glan Gors, Llanllyfni – addasiadau ac estyniadau i eiddo preswyl - caniatáu; NP3/22/17N- Ymgynghoriad – gosod 2 pod gwersylla a gwaith cysylltiedig – Ffridd, Nantlle – gofyn am fwy o wybodaeth.

10. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis. Cofeb R Williams Parry - OP Huws yn datgan nad oes gweithredoedd. Rhaid diffinio pwy sy'n derbyn cyfrifoldeb. Ar ol derbyn unrhyw gyfraniadau ar gyfer adfer y gofeb, mae angen gweld beth yw'r canllawiau ar gyfer unrhyw arian dros ben, a phenderfynu beth i'w wneud hefo fo. Mae angen cadarnhau beth fyddai cyfrifoldebau y Cyngor Cymuned pe taswn ni yn comisiynnu rhywun i weud unrhyw waith adfer – h.y. pe tasai rhywun yn baglu er enghraifft.

11. Goleuadau Nadolig. Darllenwyd ebost Dylan – aros am brisiau.

12. Trethi Tai Haf. Cynnig am welliant i'r llythyr arfaethedig, sef i ystyried pobl sydd yng Nghymru hefyd ac yn wirioneddol rhedeg busnes, sydd yn beth positif i'r ardal a'r economi. Gofynwyd i Sian ychwanegu at y llythyr ac i'r Clerc gylchyrur ebon i'r Cynghorwyr i gyd. Os bydd pawb yn hapus efo'r newid, y Clerc i'w yrru ymlaen i'r gwahanol swyddogion.

13. Clwb Ieuenctid. Trafodaethau yn parhau.

14. Bordiau Arafu Traffig. Cynllun cydweithio efo ysgolion ar y gweill.

15. Gohebiaeth

***Cyngor Gwynedd:**

*Gorchymyn – Cyfyngiadau Parcio. Er gwybodaeth.

*Gorchymyn – Gwaharddiadau Traffig. Er gwybodaeth.

*Budd Daliadau – poster i'w arddangos ynglyn a newidiadau i'r cynllun.

*Data Cronfa Pensiwn Gwynedd/Cyfraddau cyfraniad gweithwyr/TR110. Hysyswyd y Cyngor beth fydd cyfradd y cyflogwr am y flwyddyn ariannol hon.

***Arall**

*Gohebiaeth parthed Taldrwt. Cynghorydd Llanllyfni wedi nodi trafndiaeth trwm ar hyd Lon Ddwr. Ar un achlysur, roedd dwy lori llawn yn Llanllyfni am 8.00 y bore, ac yn dod yn ol yn wag am 8.45. Lori arall llawn erbyn 10.15. Ar ol 3.00, dwy lori llawn arall. Fe nodwyd fod lon Tyddyn Agnes yn dirywio yn barod, yn brysur dorri i fyny. Nodwyd fod loriau 8 olwyn yn tramwyo yn ol ac ymlaen, ac yn gor yrru ar hyd ffordd gul, yn enwedig wrth ddod yn ol yn wag. Nodwyd fod tractorau a threlars yn brwydro i fynd i fyny allt gan eu bod yn cario cyn gymaint o lwyth.

Mae mwy o loriau yn tramwyo yn ol ac ymlaen o'r safle â sydd yn dderbyniol, ac yn uwch na'r amcangyfrif yn y cais i gloddio'r safle yn y lle cyntaf (C17/0973/22/MW), roedd amcangyfrif o tua 5 llwyth y dydd – “Rhagdybir i'r gweithrediadau gymryd 2 flynedd i'w cwblhau yn seiliedig ar 100 tunnell y diwrnod, neu 5 llwyth y dydd”. Yn ogystal, mae pryder am ddiogelwch plant yn cerdded i'r ysgol, ac eto yn y cais i gloddio, roedd awgrym “fe'i hanogir i osgol amseroedd traffig brig o 8.30 – 9.00 a 16.30 – 17.00 yn ystod yr wythnos.” Mae'n amlwg o ran dirywiad y ffordd, mwd ar y ffordd, a'r cynydd gormodol mewn traffig trwm â llwythi anferth, nad yw'r amod ar y caniatad yn ddigonol. Mae'r loriau yn llenwi'r ffordd, ac yn aml ddim yn bagio i ddefnyddwyr eraill y ffordd. Gofynnir i Cyngor Gwynedd fonitro yn ofalus, a chofnodi llwyth ac amseroedd loriau yn mynd yn ol ac ymlaen o'r safle. Mae cynydd sylweddol mewn trafndiaeth trwm drwy Dyffryn Nantlle, ac mae angen rheolaeth arno. Mae'r Cyngor Cymuned angen gwybod oddi wrth Gwynedd beth yw'r dull o fonitro niferoedd ac amseroedd teithiau'r loriau.

*Cais am wybodaeth – Cerrig Mawr, Nasareth. Ymateb i'r ebost yn dweud nad oes unrhyw wybodaeth bellach, dim ond fod tystiolaeth fod rhent yn cael ei dalu i Gyngor Cymuned Llanllyfni yn y gorffennol, nifer o flynyddoedd yn ol.

*Un Llais – Cyfarfod Grwp Cyfeiriol Betsi Cadwaladr; Cyflwyniad i Gynllunio; Hwyl yn y Dwnjwn.

16. Llwybrau a Mynwentydd Diolch i Harry am gynnig agor y giatiau ar Sul y Mamau a Sul y Blodau.

17. Materion yn ymwed a'r heddlu. Gwahodd Sergeant yr Heddlu i gyfarfod y Cyngor fis Mehefin – rhywun Cymraeg.

18. Materion ariannol – Derbynebaw Clerc; Ffon/Rhyngwyrdd Clerc £25; Scottish Power £31.78. Derbyn.

19. Ceisiadau am Arian – Ambiwylans Awyr Cymru. Trafod Chwefror.